



Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen (CDLI) - 2022-2037

Safleoedd Ymgeisiol - Nodyn Cyfarwyddyd LANDMAP

Gorffennaf 2023

*This document is available in English
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd LANDMAP dan sylw (Gorffennaf 2023) yn egluro sut y gellir defnyddio mapiau nodweddu 'Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales' (CNC/NRW) i lywio, ac ategu at asesu a dylunio safle.

Cyflwyniad

Paratowyd y nodyn cyfarwyddyd hwn i gynorthwyo'r sawl sy'n cynnig safleoedd ymgeisiol, lle gallai effeithiau datblygu safle arfaethedig arwain at effeithiau sylweddol ar dirweddau, golygfeydd a'r effaith ar y llygad.

Mae'r nodyn yn egluro sut y gellir defnyddio mapiau nodweddu LANDMAP a'r adnoddau i fynd ati i ystyried yr agweddau ar y dirwedd sydd eu hangen i gefnogi Asesiad Safle Ymgeisiol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Mae Methodoleg Asesiad Safle Ymgeisiol a gyhoeddwyd (Mai 2023) yn nodi bod y bydd yr holl safleoedd sydd yn mynd ymlaen i Gam 2 yr Asesiad yn cael eu cwestiynu o ran Effaith y Datblygiad ar y Dirwedd a'r Amgylchedd. Gellir llywio hyn drwy Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (LVIA) ffurfiol a/neu'r wybodaeth a ddarperir drwy LANDMAP, sy'n cynnig gwybodaeth gyd-destunol sylfaenol wedi'i mapio am gymeriad, rhinweddau a gwerthoedd tirweddau.

Pan fydd materion sylweddol yn ymwneud â'r dirwedd, dylai unrhyw safleoedd ddarparu lefel briodol o waith asesu pan fyddant yn cyflwyno'r safle am y tro cyntaf. Mae'n ofynnol i'r sawl sy'n cynnig safleoedd ar raddfa strategol (100+ o anheddau, y gallu i gynhyrchu 10MW a mwy o ynni, echdynnu mwynau) adolygu Astudiaeth Nodweddion LANDMAP yn llawn i'w gyflwyno a'i ystyried yn ystod yr Alwad am Wybodaeth Ategol Ychwanegol.

Gwybodaeth am y Dirwedd

Mae Polisi Cynllunio Cymru Rh. 11 (2021) tt 6.3.20 o blaid defnyddio asesiadau LANDMAP i lywio astudiaethau i asesu cymeriad, dyluniad a sensitifrwydd y dirwedd.

I lywio'r broses o ddyrannu a chyflawni safleoedd ymgeisiol drwy broses y CDLIN yn unol â pholisïau a deddfwriaeth berthnasol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn galw am gyflwyno gwybodaeth ar yr effaith ar y dirwedd a'r amgylchedd. Gall hyn fod yn Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) ac i gynorthwyo'r broses gellir defnyddio adnodd LANDMAP ar wefan CNC/NRW - [LANDMAP - llinell sylfaen tirwedd Cymru](#)

Mae Nodyn Cyfarwyddyd LANDMAP GN 17 (Asesu Sensitifrwydd y Dirwedd yng Nghymru) yn cynnig:

- Dull cyson ar draws gwledydd y DU i osgoi dryswch
- Camau a thermau cyffredin, ond yn sicrhau hyblygrwydd er mwyn defnydd eang

- Ei gadw'n syml i hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o sensitifrwydd y dirwedd - yn enwedig peidio â chynnwys gallu'r dirwedd, sy'n dibynnu ar fwy o ffactorau na sensitifrwydd yn unig.
- Sylfaen dystiolaeth gadarn a all wrthsefyll craffu manwl. [Asesu Sensitifrwydd y Dirwedd yng Nghymru](#)

Mae Nodyn Cyfarwyddyd LANDMAP GN46 yn rhoi arweiniad pellach am LANDMAP a hynny o ran defnyddio LANDMAP mewn Asesiadau o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol ar gyfer cynlluniau strategol mwy manwl. CNC/NRW sy'n darparu GN46 a gellir cael hyd iddo drwy ddilyn y ddolen a ganlyn.

[Defnyddio LANDMAP mewn Asesiadau o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol \(Nodyn Cyfarwyddyd 046\)](#)

Bydd hyn yn berthnasol iawn ar gyfer cyflwyniadau i gefnogi safleoedd ymgeisiol ar raddfa strategol yn ystod yr Alwad am Wybodaeth Ategol Ychwanegol.

System Gwybodaeth LANDMAP yw'r fethodoleg a ddefnyddir yng Nghymru i asesu'r dirwedd. Mae'n cynnig cyfoeth o ddata mewn perthynas â'r dirwedd. O fewn y system hon, rhennir y dirwedd yn haenau sy'n cynnig pum agwedd o werth cyfartal sy'n cael eu hasesu o ran eu nodweddion a'u gwerth, yng nghyd-destun cyfres benodol o feini prawf. Dyma'r pum agwedd:

- Tirwedd Ddaearegol
- Cynefinoedd Tirwedd
- Gweledol a Synhwyrdd
- Tirwedd Hanesyddol
- Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol

Yn sail i bob un o'r agweddau, mae unedau daearyddol arwahanol a elwir yn ardaloedd agwedd yn cael eu nodi a'u mapio. Mae set ddata yn cael ei datblygu, i gynnwys dosbarthiadau disgrifiad a gwerthusiad ansawdd. Cefnogir hyn gan setiau data heb eu gwerthuso (a Swyddogaeth Tirwedd) ac mae'r canfyddiadau yn ffurfio Astudiaeth o Ganfyddiad y Cyhoedd.

Dylai'r cyflwyniadau ddefnyddio adnoddau LANDMAP ac ystyried yr effaith ar y pum agwedd i werthuso statws y safle o ran sensitifrwydd (Isel, Cymedrol, Uchel, Uchel iawn) a'r effaith posibl ar werth y dirwedd wrth ddatblygu'r safle.

Dylid crynhoi'r effaith/tueddiad hwn ar gyfer pob agwedd naill ai fel: Effaith Uchel, Canolig neu Isel ar ansawdd y dirwedd (Coch, Ambr, Gwyrdd) ac yna dylid cyfuno hyn i greu sgôr gyffredinol ar gyfer effaith y safle ar y dirwedd. Bydd y statws hwn yn cael ei sicrhau a'i wirio o ran ansawdd gan y Cyngor drwy'r broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol.

Y Gofynion ar gyfer Asesiad Safle Ymgeisiol

Oherwydd y nifer fawr o safleoedd ymgeisiol sydd yn cael eu cynnig, mae'r Cyngor yn galw am ddull cyson o gasglu ac asesu data tirwedd. Dylai pob asesiad ddilyn arweiniad CNC/NRW gan ddangos gwerth a sensitifrwydd safleoedd arfaethedig, a lefel effaith posibl y cynigion ar nodweddion amrywiol y dirwedd.

Mae fformat y fath asesiadau wedi ei nodi yng nghanllawiau Crynodeb Allbynnau CNC/NRW [Asesu Sensitifrwydd y Dirwedd yng Nghymru](#). Disgwylir i'r canlynol gael eu cyflwyno ar ffurf dogfen ategol i'r ACLI.

1. Asesiad Tirwedd Sylfaenol - yn unol â'r CNC/NRW - Mae Cyfarwyddyd Asesu Sensitifrwydd y Dirwedd yng Nghymru LANDMAP GN17, yn asesu gwerth y safle a'i effaith.
2. Ffurflen Crynodeb o'r Safle - i'w llenwi ar gyfer pob Safle Ymgeisiol yn seiliedig ar arolwg maes a gwybodaeth leol am y safle ac asesiadau desg. Bydd fformat y ffurflenni yn unol ag Enghraifft

1 y Cyflwyniad (Adran 7 Tudalen 40): creu crynodeb un dudalen ar gyfer uned asesu. Bydd y dudalen hon yn cynnwys:

- i. Asesiad o Werth y Dirwedd (yn seiliedig ar y 5 agwedd a nodwyd) - Isel, Cymedrol, Uchel, Uchel lawn
- ii. Asesiad o ba mor Sensitif yw'r Dirwedd i'r datblygiad arfaethedig, Uchel, Canolig, Isel ac yna cyfuno'r rhain i lunio Asesiad Cyffredinol o Sensitifrwydd y Dirwedd, i arwain at sgôr o Uchel, Canolig, Isel.